

Y BALA

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd.

Argraffiad

Argraffiad: Fersiwn Terfynnol

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239
Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Arfarniad Ardal Gadwraeth.

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
- 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig
3.0 Llinell Amser Hanesyddol
4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Trosolwg Ardaloedd Cymeriadol
- 5.2 Ardaloedd Cymeriad
- 5.3 Deunyddiau
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
8.0 Asedau Dynodedig Eraill
9.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
    2.1 Cyflwr
    2.2 Adeiladau mewn Perygl
3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
4.0 Rheolaeth Gadarnhaol
    4.1 Newid Ffiniau
    4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol
    4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
    4.4. Cynaliadwyedd
    4.5 Bioamrywiaeth
5.0 Ymgynghoriad



Y RHAN GYNTAF: GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyno a Pholisi Cynllunio**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol.Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol,** ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

Golwg cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

1.1.3 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 02), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.

Lleoliad a Gosodiad

1.1.4 Mae'r Bala'n dref fechan yng Ngwynedd. Mae mewn dyffryn eang ym mhen gogledd-ddwyreiniol llyn rhewlifol Tegid, llyn naturiol mwyaf Cymru.

1.1.5 Mae'r llyn a'r dref yn Hollt y Bala, hollt sy'n mynd (yn fras) o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, ac allan, yn y pen draw, i Fae Ceredigion.

1.1.6 I'r dwyrain o'r Bala ac i'r de o'r holl mae Mynydd y Berwyn yn codi'n uwch na 800m UDO i Gadair Berwyn (832m) a Moel Sych (827m). Rhwng y dref a'r copaon uchaf gwelir bryniau'r Hirnantau coediog iawn yng nghyffiniau Cwm Hirnant.



01 Y Bala yng nghyd-destun Llyn Tegid, gan edrych tuag Aran Fawddwy. [H] Dronepics.Wales.
https://creativecommons.org/licenses/by/4.0/


I'r de o'r dref mae Aran Fawddwy yn codi i 905m, ac i'r gorllewin, uwchlaw cronfa Llyn Celyn, mae Arennig Fawr (854m).

1.1.7 Llifa Llyn Tegid i'r Afon Ddyfrdwy tua'r gogledd-ddwyrain, ac ymlaen i Langollen a Chaer. Ymuna Tryweryn â'r Ddyfrdwy ychydig i'r gogledd o'r dref. Yn Llanuwchllyn daw'r Ddyfrdwy, Lliw a Thwrch ynghyd ychydig i'r de o Lyn Tegid.

1.1.8 Mae'r Bala ar gyffordd ffyrdd pwysig, gyda'r llwybr sy'n dilyn y Ddyfrdwy'n croesi'r bylchau uchel sy'n cysylltu'r dref â Thrawsfynydd a Chwm Prysor tua'r gogledd ddwyrain, a thua Chwm Pennant tua'r de a'r dwyrain.

Dynodiad

1.1.9 Dynodwyd yr Ardal Gadwraeth ym 1971.



Ardal Gadwraeth Bresennol
1:2000 ar A4

02 Cynllun yr Ardal Gadwraeth ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

2.0 Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig

2.1.1 Cynlluniwyd tref ganoloesol y Bala gan Roger Mortimer ddechrau'r 14eg ganrif. Mae ei gynllun, a ddiffiniwyd gan dair stryd gyfochrog tan ddylanwad y mwnt o'r 12fed ganrif, yn dal i fod yn eglur heddiw.

2.1.2 Mae'r gosodiad tirweddol yn bwysig o ran y diddordeb arbennig ac o ganlyniad gwerth esthetaidd. Crynhoir y cymeriad hanfodol yn dda gan y teithiwr Pictwrésg Roscoe ym 1853,sy'n disgrifio'r gwrthgyferbyniad rhwng tirweddau gwylltach, garwach y mynyddoedd gerllaw â'r 'tirweddau tirionach' o amgylch y dreflan fechan a'r 'llyn llyfn, digyfnewid'.[1] Mae'r gwrthgyferbyniad hwn eto'n ddilys, ac yn hanfodol i brofiad ac agwedd dirweddol y dref, er nad yw'r profiad o'r dirwedd mor uniongyrchol ag yn Nolgellau neu Fetws y Coed, er enghraifft, yn enwedig o fewn y dref.

2.1.3 Mae'r Bala'n enghraifft glir o fwrsdeisdref gynlluniedig Seisnig, sydd wedi ei gwarchod yn dda, yr orau ym Meirionnydd, yn sicr, ac y mae'r tarddiad canoloesol hwn dal yn amlwg iawn. Mae hyn yn bwysig yn nhermau gwerth cymunedol a hanesyddol fel ei gilydd. Mae'r prif elfennau'n cynnwys:


- Patrwm stryd cyfochrog y Stryd Fawr, Heol Arennig, Heol Plasau a Heol y Domen, ynghyd â chroes-strydoedd Heol Aran a Heol Tegid, sef ôl troed y dref a gynlluniwyd gan Mortimer.
- Y berthynas rhwng Heol y Domen a'r Stryd Fawr â Thomen y Bala, sydd o gymorth i ddiffinio graddfa a maint lleiniau. Bu i'r mesuriadau ddylanwadu ar bennu'r lleiniau bwrdais, gan darfu ar batrwm y strydoedd.[2]
- Lled a graddfa'r Stryd Fawr, wedi'i chynllunio'n ofod ar gyfer marchnad y dref.

2.1.4 Mae ei swyddogaeth fel canolfan radicaliaeth grefyddol wedi dylanwadu'n fawr ar gymeriad presennol y dref. Mae'n bwysig iawn i werth cymunedol y dref, ond y mae ganddi arwyddocâd esthetaidd a hanesyddol gref hefyd. Mae agweddau allweddol yn cynnwys:

[1] Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London), p.245.
[2] Aston, M a Bond, J (1976) The Landscape of Towns. (Sutton Publishing Limited)



03 Tomen y Bala (2021)



04 Golwg ar y Stryd Fawr o'r awyr. Mae'r lleiniau bwrdais dal yn amlwg. [H] Dronepics.Wales. https://creativecommons.org/licenses/by/4.0/

- Golygfeydd tua'r dref ac oddi wrthi o Goleg y Bala ar dir uwch yn nesaf at Heol Ffrydan.
- Y berthynas rhwng addolfeydd y gwahanol enwadau. Golygfeydd o Eglwys Crist, y Capel Presbyteraidd cyntaf (wrth y Stryd Fawr), cipolygon ar Gapel yr Annibynwyr a Chapel Tegid â'r blaen-gwrt, safle cyntaf Coleg y Bala.
- Cartref Thomas Charles a choleg gwreiddiol y Methodistiaid Calfinaidd.
- Coleg yr Annibynwyr ar Heol y Domen (Ffig. 06).
- Cerfluniau amlwg Thomas Charles a Lewis Edwards.

2.1.5 Bu'r dref yn ffyniannus yn ystod y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg, yn bennaf oherwydd y fasnach nwyddau gwlân, yn enwedig hosanau. Erys amryw adeiladau da, nodedig eu hansawdd a'u manylion, o'r cyfnod hwn. Maent o garreg yn bennaf, â ffenestri codi mawrion, ac yn dechrau diffinio'r dref 'gyfoes.'

- Adeiladau ar y Stryd Fawr, gan gynnwys Henblas, R. M. Roberts, Spar, Y Cyfnod ac eraill.
- Neuadd y Dref ac adeiladau rhestredig eraill yn ymestyn o'r Stryd Fawr ac ar hyd Heol Tegid, a'r Siop Bapur Newydd ar y gornel.
- Rhestai Heol Tegid ynghyd â'r Gelli, Plas Teg a Phlas yn Acre.
- Cyfnodau cyntaf adeiladu gwestai.

2.1.6 Mae dyfodiad y rheilffordd a datblygu'r dref yn gyrchfan neu'n fan aros ar gyfer teithwyr wedi rhoi iddi gymeriad pensaernïol detholiadol a hanfodol i'w harwyddocâd esthetaidd.

- Rhestai gerllaw safle blaenorol yr orsaf, â gwaith briciau amryliw.
- Deunyddiaeth amrywiol y Stryd Fawr a graddfeydd a deunyddiau amrywiol adeiladau, gan gynnwys carreg, pren a rendr.



05 Coleg cyntaf y Methodistiaid Caflinaidd, y tu ôl i gartref Thomas Charles, sef Banc Barclays yn ddiweddarach (Wikimedia Commons)



06 Coleg yr Annibynwyr ar y chwith, gyferbyn â Chapel yr Annibynwyr. (2021).

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cynhanes-yddol a Rhufeinig

3.1.1 Ymdrinnir yn fanwl â hanes y Bala mewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod roi ond cyd-destun yr arfarniad a'r asesiad diddordeb arbennig.

3.1.2 Ni ddeellir dechreuad y Bala'n dda iawn ac nid oes llawer o olion cynhanesyddol yn yr ardal. Mae'r lleoliad, fodd bynnag, yn amlwg yn un strategol, ac adlewyrchir hyn gan agosrwydd amryw ffyrdd Rhufeinig. Âi'r bwysicaf o Gaer i'r safle milwrol yn Llanfor (1 km i'r gogledd-ddwyrain o'r dref) ar hyd ochr ogledd-orllewinol y llyn, tua Chaer Gai a Brithdir ger Dolgellau.[3]

3.1.3 Bu caer ymgyrchol Rufeinig fawr yn Llanfor.[4] 'Roedd o gryn faint, â dau floc barics ar hugain a allai gartrefu 1,760 o filwyr. Byr fu ei pharhad, a thybir iddi gael ei disodli gan y gaer ddiweddarach o gyfnod Flavian (OC 69-96) yng Nghaer Gai, i'r de o Lyn Tegid.[5]

Canoloesol

3.1.4 Cafwyd tystiolaeth ynghylch presenoldeb adeiladau canoloesol yn Llanfor ac 'roedd eglwys yma erbyn y 10fed ganrif, gan awgrymu rhywfaint o'r anheddu cynharaf. Mae amddiffynfa gylch, PenUcha'rLlan, i'r gogledd o'r eglwys, hefyd.

3.1.5 Mae mwnt serth, crwn Tomen y Bala, ar ochr ddwyreiniol y Stryd Fawr, yn dyddio o'r 12fed ganrif, debyg. Mae'r patrwm cestyll pridd ar hyd Dyfrdwy, o Lyndyfrdwy i'r gorllewin at y Bala, yn awgrymu gwaith Normaniaid, yn hytrach na Chymreig.

3.1.6 Yn ddiweddarach cysylltir Tomen y Bala â maerdref cwmwd Uwch Tryweryn yng nghantref Penllyn. Yn draddodiadol fe'i cysylltid â Phowys, ond yn destun ymosodiadau tywysogion Gwynedd. Erbyn diwedd y 12fed ganrif delid Penllyn gan Elis ap Madog ap Maredudd.[6] Wedi iddo wrthod cefnogi ymosodiadau Llywelyn ab Iorwerth (o Wynedd) ar Bowys, meddiannodd Llywelyn gastell y Bala, a daliodd Gwynedd Benllyn hyd farwolaeth Llywelyn ap Gruffydd ym 1282.

[3] Prosiect Disgrifio Tirwedd Hanesyddol http://www.heneb.co.uk/hlc/balathemes.html
[4] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=3228
[5] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=284
[6] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG), *Bala Draft Conservation Area Appraisal/Urban Characterisation Study, (adran 5.1).*



07 Manylyn o Fap Degwm, gan ddangos anheddu sylweddol ar hyd y Stryd Fawr (1841)



08 Golygfa o 'Dommen y Bala'. O'r gwreiddiol gan Moses Griffith (tua 1784) o 'A Tour in Wales' gan Thomas Pennant (1726-1798).

Yr 16eg ganrif a'r 17eg

3.1.7 Ymddengys yn debyg i'r Bala ei hun ddechrau datblygu o gwmpas mwnt Tomen y Bala o ddiwedd y 12fed ganrif ymlaen.

3.1.8 Ym 1310 sefydlwyd bwrdeistref gynlluniedig gan Roger Mortimer, gan ddefnyddio tiroedd canolfan y cwmwd yn bennaf. Ymddengys mai rhan o'r bwriad oedd trechu anhrefn ym Mhenllyn. Dynododd Mortimer 53 llain fwrdais, sef tŷ a gardd, pob un yn 200tr x 26tr. Mae bwrdais yn ddaliadaeth lle delid tir mewn tref yn gyfnewid am wasanaeth neu rent.

3.1.9 Trefnwyd y lleiniau bwrdais ar hyd yr hyn sydd heddiw'n Stryd Fawr, gyda dwy lôn yn gyfochrog iddi (sef Heol Arennig, Heol Plasey a Heol y Domen heddiw).

3.1.10 Erbyn hyn 'roedd y Bala'n wedi ei sefydlu yn brif anheddle, gan y trosglwyddwyd y farchnad o Lanfor. Ym 1324 derbyniodd y dref ei siartr fwrdeistrefol gyntaf.

3.1.11 Awgryma gweithredoedd o 1350 yr adeiladwyd capel, a bod yr anheddle'n dilyn patrwm strydoedd heddiw, yn fras.[7] Yr oedd eglwys y plwyf yn dal yn Llanycil y pryd hwnnw. Erbyn dechrau'r 14eg ganrif 'roedd gan y dref farics, melin a llys barn.

3.1.12 Ym 1485 cododd Rhys ap Meredudd fintai o ddynion y Berfeddwlad, gan ei harwain i faes Bosworth i ymladd o blaid Harri'r 7fed. Yn dilyn buddugoliaeth Harri enillodd y teulu freintiau sylweddol gan y brenin newydd, a arweiniodd, yn ei dro, at sefydlu ystâd Rhiwlas i'r gogledd o'r dref, a fyddai'n aros yn ddylanwadol yn y canrifoedd dilynol.

3.1.13 Arhosodd y Bala'n anheddiad bychan ac erbyn canol yr 16eg ganrif cofnodwyd fod yno cyn lleied â 13 trethdalwr. Fe'i disgrifiwyd hi'n 'farchnad fach dlawd' gan yr hynafiaethydd John Leland (1532-4).

3.1.14 Erbyn yr 16eg ganrif 'roedd y dref yn ennill peth ffyniant yn sgil y masnachau gwlân, gweu a gwartheg. Awgryma cyfeiriadau William Camden (1551-1623) a'r cofnodion treth aelwyd fod y dref yn gymharol ffyniannus, bellach.

3.1.15 Yn ystod y 18fed ganrif hyrwyddwyd datblygu ar raddfa fechan gan deuluoedd cefnog, gan gynnwys Preisiaid Rhiwlas gerllaw, Lloydiaid Rhiwaedog a drigent ym Mhlas yn Dre, a theulu Williams-Wynn Wynnstay, a oedd â chartref ac eiddo arall yn y dref. Yr adeg hon 'rodd gan y dref enw



09 Y Stryd Fawr, tua 1875 (John Thomas). Mae'r Llew Gwyn wedi'i ailddatblygu, bellach.



10 Y Stryd Fawr (John Thomas) cyn 1875 (sylwer ar y Llew Gwyn gwreiddiol).

[7] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG), *Bala Draft Conservation Area Appraisal/Urban Characterisation Study, (adran 5.2).*

Ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg – y fasnach wlân.

am nwyddau gweu lleol, gyda'r Parch. J. Evans yn cofnodi 'masnach aruthrol mewn hosanau, menig a chapiau gwlân' ym 1812.[8]

3.1.16 Mae diffyg ei heglwys ei hun, hyd nes yr adeiladwyd Eglwys Crist ym 1811, yn tystio i dwf araf y dref. Datgela cofnodion cyfoes fod y dref fwy neu lai o fewn ei ffiniau canoloesol yn nechrau'r 19eg ganrif.

3.1.17 Dengys Map Degwm 1841 (gw. Ffig.07) ddatblygiadau ar hyd y Stryd Fawr, yn dangos yn glir y cwrt y tu allan i'r Llew Gwyn ac adeiladu ar hyd Heol y Castell a Heol Tegid.

3.1.18 Mae'r Bala yn enwog am dwf Anghydffurfiaeth yn y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg, tan ddylanwad mawr Simon Lloyd (1756-1836) o Blas yn Dre, tirfeddiannwr lleol amlwg. O ganlyniad, ffafriai Lloyd, a oedd yn Fethodist ymroddedig, anghydffurfwyr wrth osod prydlesau. Rhoddodd brydles am adeiladu capel ym 1778 i grŵp o Fethodistiaid amlwg, gan gynnwys Daniel Rowlands a Peter Williams.


3.1.19 Yr oedd Lloyd yn gyfaill da i'r Parch. Thomas Charles, at bwy y cerddodd Mary Jones 16 oed ar daith enwog o tua 25 milltir o Lanfihangel-y-Pennant er mwyn prynu Beibl. Trwy Charles, arweiniodd hanes Mary, yn y pen draw, at sefydlu'r Gymdeithas Feiblau Brydeinig a Thramor.

Y 19eg ganrif – radicaliaeth grefyddol

3.1.20 Pan sefydlodd y Parch. Lewis Edwards athrofa Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y Bala, fe'i gwthiwyd i reng flaen Anghydffurfiaeth, a Methodistiaeth Galfinaidd yn neilltuol. Codwyd adeilad penodol ar gyfer yr athrofa ym 1867, yn lle ystafell y tu cefn i Blas yn Dre. Dyma Goleg y Bala, bellach, canolfan ieuenctid Gristnogol, a saif mewn lle uchel, amlwg wrth Heol Ffrydan (y tu allan i'r Ardal Gadwraeth).[9]

3.1.21 Cysylltid y coleg â'r dref gan yr Heol Ffrydan newydd, a ddisodlodd Heol y Castell ar gyfer trafnidiaeth tua Thrawsfynydd. Adeiladwyd yr Eglwys Crist newydd ym 1855 ar gornel HeolArennig a Heol Ffrydan.

3.1.22 Y capel bach (tua 1811) ar y Stryd Fawr, oedd yr Eglwys Anglicanaidd hyd nes yr adeiladwyd yr Eglwys Crist amlwg ym 1853-4 ar raddfa i herio'r Anghydffurfwyr.



11 Ysgythriad o goleg arfaethedig y Bala (tua 1865).



12 Rhan o'r map AO 6" – 1 filltir, a arolygwyd ym 1888. Mae'r rheilffordd a'r Coleg Methodistaidd wedi cyrraedd, ond fel arall mae'r dref yn gryno iawn.

[8] Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd, p.545.*
[9] http://www.heneb.co.uk/hlc/bala/bala3.html

Ddiwedd y 19eg ganrif – y rheilffordd yn cyrraedd.

3.1.23 Erbyn canol y 19eg ganrif awgryma nifer y gwestai a'r tafarndai fod y dref yn dod yn ganolfan ar gyfer ymwelwyr a theithwyr oedd yn anelu am y glannau tua'r gorllewin. Mae'r patrwm hwn i'w weld yn y treflun heddiw.

3.1.24 Cyrhaeddodd rheilffordd y Great Western y Bala (yn y man a ddeuai'n Gyffordd y Bala, i'r dwyrain o'r llyn) o Gorwen ym 1868, gan wneud y dref yn fwy hygyrch i ymwelwyr. Agorwyd lein ychwanegol o'r Bala i Ffestiniog trwy Gwm Prysor ym 1882, gan arwain at godi gorsaf (yr orsaf 'newydd') i'r gogledd o'r dref, yn ymyl Pont y Bala.

3.1.25 Daeth agosrwydd lein Ffestiniog â rhywfaint rhagor o ddatblygiad, yn ogystal â deunyddiau adeiladu gwahanol, brics a therracotta'n bennaf. Tua 1890 gwelwyd datblygiad hapfasnachol yn Rhes Ffrydan ger yr orsaf newydd a'r siopau sy'n wynebu Neuadd y Cyfnod.

3.1.26 Yr oedd darpariaeth addysgol y dref gynt yn cynnwys Neuadd y Cyfnod, a sefydlwyd trwy gymynrodd Edward Meyrick ym 1713-14. Mae'r adeilad presennol yn dyddio o tua 1851. Sefydlwyd Ysgol Beuno Sant, yr Ysgol Genedlaethol, ym 1872-3, ac yna Ysgol y Berwyn, yr Ysgol Ganolradd, ym 1899.

Y Bala gyfoes

3.1.27 Bu'r dref wastad yn apelio at ymwelwyr, ond dyma'r prif fusnes, bellach, gyda newid pendant yn ei chymeriad ddiwylliannol. Bu rhagor o ddatblygiad yn yr 20fed ganrif, gyda thai'n ymledu i'r de a'r gorllewin o'r dref, gan gynnwys ystadau awdurdod lleol sylweddol i'r gogledd o Heol Arennig. Mae tai newydd wedi eu codi yn ardal y Coleg a Bodiwan hefyd, gan golli'r 'bwlch' pendant fu rhyngddynt a'r dref.

3.1.28 Caeodd y rheilffyrdd yn raddol yng nghanol a diwedd y 1960au a chwalwyd yr orsaf wrth Bont y Bala; ond sefydlwyd rheilffordd stêm gul, Rheilffordd Llyn Tegid ar ran o wely'r trac ym 1972. Mae gorsaf newydd y dref y tu ôl i'r sinema flaenorol yn cael ei hadeiladu yn awr (2021).[10]



13 Gorsaf y Bala tua 1950. Sylwch ar y sied nwyddau mewn arddull castell ar orchymyn ystâd Rhiwlas.



14 Golwg o'r Coleg tua'r Bala. Cerdyn post tua 1920.

[10] https://www.balalakerailwaytrust.org.uk

4.0 Dadansoddiad Gofodol

Ffurf a Threfn yr Anheddiad

4.1.1 Gellir gweld mai ffurf bresennol y dref yw'r un a osodwyd gan Roger Mortimer yn y 14^{eg} ganrif. Mae'r Stryd Fawr hir, lydan a'i strydoedd cefn cyfochrog, Heol y Domen a Heol Arennig, yn adlewyrchu lleiniau bwrgais ac fe'u rhennir yn ddwy gan y llwybr cynnar o Sir Drefaldwyn i Sir Gaernarfon (Heol Tegid a Heol y Castell).[11]

4.1.2 Pennwyd patrwm tref Mortimer gan berthynas y Stryd Fawr a Thomen y Bala, felly mae'r patrwm eang hyd yn oed yn hŷn,mewn gwirionedd. Gall fod cyfliniad y dref yn deillio o ffyrdd Rhufeinig. Mae'r berthynas ganoloesol rhwng Tomen y Bala a Thryweryn a Llyn Tegid eto i'w gweld, er wedi'i newid llawer gan adeiladau diweddarach.

4.1.3 Arddangoswyd uniaethiad y Bala ag Anghydffurfiaeth yn amlwg ym mherthynas Coleg y Bala, a safai'n amlwg uwch y dref, i'r dwyrain o Heol Ffrydan. Erydwyd y berthynas hon gan ehangiad diweddarach Ysgol y Berwyn a rhagor o ddatblygiad i'r dwyrain o Heol Ffrydan.

4.1.4 Mae cyffiniau Pont y Bala wedi newid yn fawr â dyfodiad a diflaniad y rheilffordd ac aliniad newydd ffordd yr A4212, a dorrodd ar y groesffordd flaenorol ac a greodd gyfres o ofodau anfoddhaol y tu cefn i'r rhestai. Mae perthynas Porth Ystâd Rhiwlas â Phont y Bala eto'n amlwg, ond y mae'r orsaf rheilffordd flaenorol yn faes parcio mawr, bellach (gw. Ffig. 15), ac y mae gorsaf dân ac unedau diwydiannol ar y gwely trac blaenorol.

4.1.5 Mae datblygiadau diweddarach wedi symud i ffwrdd o'r patrwm canoloesol, gydag ehangu trwy gartrefi awdurdod lleol (i ddechrau) i'r gogledd-orllewin o Heol Arennig, datblygiadau tai yn Heol y Fron i'r de o'r dref, ac ar ddwy ochr Heol Tegid i'r dwyrain.

4.1.6 Mae i'r dref sawl ardal o gymeriad pendant yr ymchwilir yn fanylach iddynt yn Adran 5.



15 Golygfa ar draws hen safle'r orsaf tua Thomen y Bala (2021).



16 Y Stryd Fawr (2021).

[11] Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd, p.545.*

Golygfeydd allweddol

4.1.7 O fewn yr Ardal Gadwraeth mae sawl golygfa allweddol sydd ynteu'n darlunio datblygiad hanesyddol y dref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau o bwys, neu'n rhoi amgyffrediad cyflawn o'i datblygiad yn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau neu nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal neu'r amgyffrediad ohono. .

4.1.8 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, gan gynnwys maes golwg o fan neilltuol.

4.1.9 Mae'r rhain fel a ganlyn (gw. Ffig. 21 hefyd):

A Golygfa ddynamig o ymyl yr Ardal Gadwraeth tua Phont y Bala, Rhiwlas a Llanfor.

B Golygfa tua Choleg y Bala a Bodiwan ar hyd Heol Ffrydan.

C Golygfa o Domen y Bala o'r B4391, y tu ôl i Neuadd y Cyfnod.

D Golygfa o Domen y Bala o'r Stryd Fawr.

E Golygfa ddynamig ar hyd y Stryd Fawr wrth iddi ymledu gyfochrog â Phlas yn Dre.

F Golygfa o'r Eglwys Bresbyteraidd flaenorol o'r Stryd Fawr.

G Golygfa ddynamig ar hyd y Stryd Fawr gan edrych tua'r gogledd-ddwyrain o'r Llew Gwyn.

H Golygfa tua'r dwyrain ar hyd Heol Tegid.

I Golygfa ddynamig o adeiladu cynnar ar gornel y Stryd Fawr a Heol Aran.

J Golygfa ddynamig ag adeiladau fferm ar gornel Heol Arenig..

K ac L Golygfeydd i dai beili anarferol, yn groes i Heol Arenig.

M Golygfa gul rhwng tai allan y Llew Gwyn a'r rhes gyferbyn ar Heol y Castell.

N Golygfa gul ar hyd Heol y Castell.

O Golygfa ddynamig agored o Heol y Castell.



17 Golygfa trwy fwa'r tloty gynt. (2021).



18 Mynwent Eglwys Crist, gan edrych tua Thŷ Seren. (2021).

P Golygfa gul ar hyd Stryd yr Eglwys tua'r Stryd Fawr.

Q Golygfa i fewn i'r beili yng nghefn y Tloty gynt o Heol Plasey.

R Golygfa tua'r dwyrain ar hyd Heol Tegid tua'r Gelli.

S Golygfa ddynamig o wyneb Capel Tegid a thai rhestredig gyferbyn.

T Golygfa ar hyd Heol y Domen tua Thomen y Bala.

U Golygfa ar hyd Heol Berwyn tua Chapel yr Annibynwyr.

Mannau gleision a Choed

4.1.10 Cyfyngedig yw'r gofod glas o fewn Ardal Gadwraeth y Bala. Y mwyaf sylweddol ac amlwg yw Tomen y Bala a'i choeden hardd.

4.1.11 Mae sawl ywen dda ym mynwent Eglwys Crist, ond fel arall mae'n ofod eithaf syml. Yn gyffredinol mae'r cerrig beddau a chofebau yn eithaf syml, yn enwedig i'r dwyrain o'r eglwys.

4.1.12 Mae lawnt beili Neuadd y Cyfnod yn drothwy pwysig i'r dref a'r Ardal Gadwraeth wrth agosáu o'r gogledd-ddwyrain.

4.1.13 Mae'r coed ar hyd y Stryd Fawr yn bwysig i olwg a chymeriad y stryd.

4.1.14 Mae'r mannau gleision yn ymyl Heol Ffrydan, o flaen y rhestai a gyferbyn â hwy, yn ofodau digyswllt a rhannol las, yn gymysg â pharcio *ad hoc*.

4.1.15 Mae'r lawnt o flaen yr Eglwys Bresbyteraidd yn gweddu i olwg a gosodiad yr adeilad hwn o ddechrau'r 19^{eg} ganrif, o'i weld o'r Stryd Fawr.

4.1.16 Mae'r cae (sy'n rhannol yn yr Ardal Gadwraeth) rhwng Bro Eryl a Stryd y Fron yn bwysig i gyd-destun yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig â'r llwybr troed yn ychwanegu gwerth cymunedol a mwynderol.

4.1.17 Nid oes coed wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed o fewn yr Ardal Gadwraeth, ond mae sawl un yn union i'r de ym Mryn y Groes ac i'r gogledd-orllewin yng Ngholeg y Bala.


4.1.18 Y coed eraill o bwys yw coed yw'r fynwent, y rhai ar hyd y Stryd Fawr, a'r un ar ben Tomen y Bala, sy'n arbennig o amlwg (gw. Ffig.52).



19 Heol Tegid tua'r Gelli. (2021).




20 Heol y Domen tua Thomen y Bala. (2021).



Golygfeydd Allweddol

1:2000 ar A4

21 Golygfeydd Allweddol yn yr Ardal Gadwraethza'r Cyffiniau ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Ardaloedd Cadwraeth

1:2000 ar A4

22 Ardal Gadwraeth, Ardaloedd Cymeriad ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

5.0 Cymeriad

Ardaloedd Cymeriad, Trosolwg.

5.1.1 Mae'r Bala'n Ardal Gadwraeth fwy ag iddi sawl ardal cymeriad pendant.

5.1.2 Mae gwreiddiau'r dref i'w canfod o gwmpas Tomen y Bala, a'r dref ganoloesol a luniwyd gan Roger Mortimer.Yn gyffredinol, **Ardal Cymeriad 1** yw craidd canoloesol y dref, gan gynnwys lonydd cyfochrog Heol Plasey, Heol y Domen a Heol Arennig, a ddiffinnir gan leiniau bwrgais canoloesol yr anheddiad cnewyllol.

5.1.3 I'r de-ddwyrain o graidd canoloesol y dref mae datblygiad o'r 18fed ganrif a'r 19eg yn ymestyn i lawr Heol Tegid, â sgwâr bychan o flaen Capel Tegid. Dyma **Ardal Cymeriad 2.**

5.1.4 I'r gogledd-orllewin o'r craidd canoloesol mae ardal fach o ddatblygiad yn ymestyn ar hyd Heol y Castell. Mae parth bychan ond neilltuol o dai'r 19eg ganrif yn agos iawn at y ffordd. Gweler **Ardal Cymeriad 3.**

5.1.5 Adeiladwyd Eglwys Crist (1855) ar gornel Heol Arennig a Heol Ffrydan,ac yn amlwg iawn wrth ddynesu o'r gogledd-ddwyrain. Bu datblygu hapfasnachol yn y cyffiniau yn dilyn dyfodiad y lein rheilffordd i Ffestiniog yn 1882, gan arwain at greu'r rhes tai brics coch a therracotta sy'n wynebu'r Stryd Fawr a'r rhes tai arsgwar neilltuol sy'n dilyn aliniad gwreiddiol Heol Ffrydan. Ailgyfliniwyd Heol Ffrydan i'r gogledd o'r rhesi yn ail hanner yr 20fed ganrif, sydd wedi newid cymeriad yr ardal hon. Gweler **Ardal Cymeriad 4.**

5.1.6 **Ardal Cymeriad 5** yw'r un i'r de o'r craidd canoloesol. Ceidw'r ardal hon elfennau amaethyddol a fuasent yn ymyl y dref gynnar. Mae gan adeilad unllawr ar gornel y Stryd Fawr a Heol Aran gymeriad neilltuol. Mae agweddau pwysig eraill yn cynnwys y sinema/theatr (Neuadd Buddug) a rhes tai o'r 19eg ganrif ar ochr y de, sy'n drothwy adeiledig y dref.



23 Gwesty'r Llew Gwyn Brenhinol (2021).



24 Tomen y Bala o'r Stryd Fawr (2021).

Ardaloedd Cymeriad.

Ardal Cymeriad 1, Y Dref Ganoloesol

5.1.7 Er y'i hailadeiladwyd yn helaeth rhwng y 17eg ganrif a'r 19eg, yr ardal hon yw cynllun 'sgwâr' y fwrdeistref ganoloesol a pherthynas y fwrdeistref ganoloesol â Thomen y Bala. Y lleiniau adeiladu, yn aml, yw'r lleiniau bwrdais canoloesol, ac y mae trefn y Stryd Fawr (a elwir yn Heol yr Orsaf wrth a thros Bont y Bala), ffyrdd cyfochrog Heol Plasey, Heol y Domen a Heol Arennig, ynghyd â ffordd de-gogledd Heol Tegid a Heol y Castell yn parhau i adlewyrchu'r cynllun cynnar.

5.1.8 Mae Heol y Domen yn gwyro i osgoi'r mwnd yng ngogledd y dref ac yn ymuno â'r Stryd Fawr. Mae cyfres o strydoedd croes yn croesi yno rhwng y Stryd Fawr a'r ffyrdd cyfochrog. Nodweddiadol o'r rhain yw eu bod fymryn yn anghyflin: hynny yw, nid ydynt yn groesffyrdd union.[12]

5.1.9 Mae'r Stryd Fawr yn dramwyfa syth, lydan sy'n awgrymu tarddiad Rhufeinig. Fe'i gwnaed yn llydan yn rhannol er mwyn cynnwys marchnad y dref. Yn ddiweddarach plannwyd coed o boptu, gyda mannau parcio'n culhau'r gerbytffordd. Awgryma uchder yr adeiladau, hyd at dri llawr, y bu gan y dref gyfoeth i adeiladu ar raddfa yn ystod y 18fed ganrif a'r 19eg.

5.1.10 Mae Pont y Bala, pont tri bwa tros Afon Tryweryn, yn dynodi dechrau'r dref; ac y mae'r berthynas rhwng y groesfan hon (mae'r bont bresennol o'r 18fed ganrif ag addasiadau diweddarach), y mwnt a Llyn Tegid yn caniatáu gwerthfawrogi dechreuadau'r dref. Mae Pont y Bala y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol.

5.1.11 Neuadd y Cyfnod yw ymyl gogleddol y dref. Fe'i hadeiladwyd yn null Tuduraidd Newydd tua 1850-51 yn ôl cynlluniau Wigg a Pownall. Buasai tŷ'r meistr ar y dde, y neuadd ar y chwith. Fe'i hadeiladwyd yn unol ag ewyllys Edward Meyrick, ac ymddiriedwyd rheolaeth drosti i Goleg yr Iesu, Rhydychen.[13] Bu'r adeilad yn wag ers peth amser, ond yn cael ei thrwsio ar adeg yr arolwg.

[12] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG),*Bala Draft Conservation Area Appraisal/Urban Characterisation Study, (adran 9).*
[13] Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd, p.549.*



25Neuadd y Cyfnod (yr hen Ysgol Ramadeg), 2021.



26 Garej betrol yr Henblas, 2021.

5.1.12 Yn y gyffordd â Heol y Domen mae cipolwg pwysig ar Domen y Bala, heibio i dŷ trillawr o'r 19eg ganrif (sydd wedi cael ffenestri uPVC er 2009, yn anffodus).O fynd ymlaen tua'r de-orllewin ar hyd y Stryd Fawr ceir

5.1.13 Rhesi o dai rhes carreg o'r 19eg ganrif ar ddwy ochr y ffordd rhwng y gyffordd ac adeiladau'r Henblas, pâr o adeiladau sy'n cynnwys swyddfa'r cyngor tref a garej petrol o gryn gymeriad. Mae gan yr adeilad ffenestri codi mawrion, ac y mae o ddechrau'r 19eg ganrif, debyg. Tybir bod llechen ag arwydd gafr a'r dyddiad 1658 o adeilad blaenorol, a chysylltir yr arwydd hwn yn aml ag ystâd Wynnstay.

5.1.14 Ar ochr ogledd-orllewinol y ffordd mae siop feiciau R. H. Roberts a Thŷ GM, dau adeilad da o ddechrau'r 19eg ganrif, hwy ill dau wedi'u rhestru, sydd wedi cadw ffenestri codi a manylion cynnar, gan gynnwys wyneb y siop.

5.1.15 I'r de-orllewin o'r Henblas mae'r Capel Presbyteraidd (tua 1810), adeilad anarferol o beth cymeriad, â thŵr yn ymestyn allan tua'r Stryd Fawr a chilgantau uwch y prif ffenestri islaw. Fe'i disodlwyd gan Eglwys Crist tua 1854. Mae'n siop henebion, bellach. Erys y blaen-gwrt â waliau rwbel da a rheiliau. Mae corff y capel yn nodwedd amlwg ar Heol y Domen, hefyd. Mae'r cloc yn ychwanegiad cyfoes (tua 1996).[14] I'r de mae Canolfan Bro Tegid (19eg ganrif, yr Ysgol Brydeinig gynt), â thalcen yn wynebu'r stryd, tua 1855, sydd gyda'r eglwys yn ffurfio grŵp pwysig.

5.1.16 Gyferbyn mae'r Llong, adeilad sylweddol o'r 18fed ganrif, bellach ag wyneb rendr o'r 20fed ganrif a chwrs godre gerwin. Yn union gyferbyn mae Plas yn Dre, sydd wedi'i newid llawer, cyn-gartref y Parch. Simon Lloyd. Tybir bod yr wyneb presennol, â ffenestri bae o'r 20fed ganrif, yn cuddio gwaith gwreiddiol o'r 17eg ganrif. Bu gan yr adeilad erddi a man agored tua'r gogledd, gofod lle saif adeilad cyfoes yn awr.[15]

5.1.17 Gyferbyn â Heol Berwyn mae cerflun a godwyd ym 1903 i gofio Thomas Edward Ellis (1859-1899), AS a Phrif Chwip Rhyddfrydol, gan W.Goscombe John. Mae ar y plinth fasgerfiadau carreg galch o Gynlas (man ei eni); Aberystwyth (ei goleg); Rhydychen a San Steffan. Mae'n diffinio'r gofod ac yn creu grŵp dymunol â'r tŷ Heulfryn o gyfnod y Rhaglywiaeth, sydd wedi cadw rheiliau a wal derfyn dda.

[14] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4910
[15] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=25993



27 Yr Eglwys Bresbyteraidd gynt. (2021).



28 Y Cyfnod ac adeiladau gweigion gerllaw (44-46 Y Stryd Fawr) 2021.

5.1.18 Ar ochr orllewinol y ffordd, i'r de o Stryd yr Eglwys, mae'r grŵp sy'n cynnwys Spar, Tenovus, Yr Eryr a Siop DE yn un da o adeiladau Sioraidd diweddar, mewn cerrig rwbel â ffenestri codi. Yn anffodus fe'u hatalnodir gan Y Badell Aur, adeilad o'r 20fed ganrif â ffenestri uPVC sydd wedi'u newid llawer.

5.1.19 Gyferbyn, mae'r Fferyllfa a'r Cyfnod yn adeiladau Sioraidd, rhestredig, da. Rhyngddynt mae 44-46 Y Stryd Fawr yn wag, wedi'i rendro ac wedi dioddef cryn newid. Byddai'n well o gael ffenestri a rendr addasach.

5.1.20 Mae rhifau 38-40 a Banc HSBC (tua 1880 gan Edmund Kirby o Lerpwl), yn adlewyrchu dyfodiad y rheilffordd, wedi'u hadeiladu mewn brics coch a therracotta. Mae i'r olaf ymylwaith o dywodfaen Swydd Gaerllion. Defnyddir brics llwydfelyn gyferbyn (diwedd y 19eg ganrif, eto), ag ymylwaith tywodfaen llwydfelyn yn 53-57 Y Stryd Fawr. Mae i 53 a 55 hwy ill dau ffenestri cyfoes.

5.1.21 Mae Neuadd y Dref yn y gyffordd â Heol Tegid yn adeilad da o ddiwedd y 18fed ganrif, mewn cyflwr cyffredinol dda, bellach â bwyty yn y llawr gwaelod. Dyma Lys y Sesiwn Fawr, gynt. Mae hwn, ynghyd ag adeiladau rhestredig eraill sy'n ymestyn o'r Stryd Fawr ar hyd Heol Tegid, gyda'r Siop Bapur Newydd ar y gornel, yn grŵp rhagorol.[16]

5.1.22 Mae Gwesty'r Llew Gwyn Brenhinol, tra amlwg, yn dyddio o ddiwedd yr 17eg ganrif, er wedi'i newid llawer ers dyfodiad y rheilffordd. Ychwanegwyd y gair "Brenhinol" wedi ymweliad y Frenhines Fictoria ym 1889. Adlewyrchir dechreuadau cynnar yn yr asgell â'r ffenestr flaen fwaog ac yn rhai o'r tai allan yn y cefn, yn nesaf at Rhesdai Cambrian.Mae cyflwr y gwesty braidd yn flinedig, ac ag angen trwsio ac ailaddurno.

5.1.23 Y Banc Barclays blaenorol (i'r dwyrain o'r Stryd Fawr) fu cartref y Parch. Thomas Charles ac yn fan terfyn taith enwog Mary Jones. Bu'n fanc er tua 1920.Adeilad trillawr da, o ddiwedd y 18fed ganrif, o bosibl, bellach ag wyneb stwco.[17] Erys gweddillion coleg cynnar y Methodistiaid Calfinaidd yn y cefn.

5.1.24 Mae pen deheuol y Stryd Fawr yn gymysgedd fwy amrywiol. Mae adeiladau brics llwydfelyn (103-105), glas (85-87) a choch (gan gynnwys Bronydd a Dolgoed) yn gymysg ag adeiladau hŷn mewn cerrig rwbel neu stwco. Mae'r

[16] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=26005
[17] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=4911



29Plas yn Dre, 2021.



30 Banc Barclays gynt, cartref y Parch. Thomas Charles cyn hynny. (2021).

amrywiaeth graddfeydd o adeiladau deulawr isel i rai trillawr uchel yn bwysig i gymeriad y strydlun.

5.1.25 Yn nesaf at dŷ Thomas Charles, mae 72 Y Stryd Fawr (adeilad rhestredig) o'r cyfnod Sioraidd cynnar, er ag angen ei drwsio, ac yn ffurfio grŵp dymunol ynghyd â'r banc a rhif 74, Mae hwnnw'n adeilad brics o'r 19eg ganrif â ffenestri bae yn ymestyn allan ar y llawr cyntaf, o flaen y gofeb ryfel wenithfaen fechan â cherrig bwrw a chadwynau.

5.1.26 Ymhellach i'r de mae cymeriad yr 17eg ganrif i'r Hen Ben Tarw, er â newidiadau diweddarach.

5.1.27 Yn ddiweddar mae tloty Undeb y Bala (1838-41) gynt wedi'i addasu'n llety yn dda, ac fe'i trwsiwyd. Mae ffurf y tloty'n eithaf nodweddiadol o dlotai Deddf y Tlodion y cyfnod, ond yn un sydd wedi'i gadw'n dda. Yn ddiweddarach bu'n farics byddin sir (o 1869), a hyd yn ddiweddar yn ffatri ddillad Aykroyd & Sons.

5.1.28 Mae'r Capel Clai gynt yn awr yn stiwdio celf a chrochenwaith, wedi'i gadw'n dda y tu mewn, ar y gornel â Heol Aran.

5.1.29 Yn gyffredinol y ffyrdd cyfochrog y tu cefn i'r Stryd Fawr yw'r dref ganoloesol. Â Heol y Domen o gwmpas Tomen y Bala ac y mae gan gefn y rhes tai sawl tŷ allan cerrig rwbel llawn cymeriad gyferbyn, sy'n bwysig i osodiad y mwnt.

5.1.30 Mae crongafell yr eglwys Bresbyteraidd yn gyfagos at y ffordd yn nesaf at adeilad a allai fod o'r 18fed ganrif, a newidiwyd llawer, y tu ôl i Henblas. Mae'r man agored (serch y parcio) nesaf at yr eglwys yn bwysig, gan ei fod yn agor golygfa o dŵr a ffenestri corff yr eglwys.

5.1.31 Rhwng yr eglwys a Heol Berwyn mae'r rhestai o boptu'r stryd o gerrig rwbel a rendr, o'r 19eg ganrif yn gyffredinol. Mae gan y mwyafrif ffenestri diweddarach.

5.1.32 Mae Capel yr Annibynwyr wedi'i osod ar Heol Berwyn fel ag i'w weld i lawr y lôn o'r Stryd Fawr, sy'n gipolwg pwysig. Yn gyffredinol mae'r capel presennol (1867) yn glasurol, gydag wyneb o gerrig bychain rhwng y meini mwy, a chonglfeini ac ymylwaith carreg galch. Bu Michael Daniel Jones (1822-1898) a John Peters (1833-1877) hwy ill dau'n weinidogion yma. Gyferbyn mae ail goleg y Bala, Coleg yr Annibynwyr. Ffurfiwyd hwn ym 1842. Michael Jones fu ei brifathro cyntaf. Symudodd ei fab a'i olynydd



31 Tloty Undeb y Bala gynt (2021).



32 Golwg ar yr Eglwys Bresbyteraidd ac adeilad y tu cefn i Henblas o Heol y Domen. (2021).

Michael D. Jones, cenedlaetholwr brwd, y coleg i Fodiwan ym 1869, a sefydlodd y Wladfa ym Mhatagonia yn ddiweddarach.

5.1.33 Yn 48-52 (ochr ddeheuol) mae rhes dda o fythynnod eithaf Gothig.[18] Mae talcen 46 yn wynebu'r stryd, ac er bod iddo ffenestri diweddarach dylid ystyried ei restru gyda'r rhes gyfagos yn grŵp pwysig. Mae'r maes parcio y tu ôl i 44-46 y Stryd Fawr yn flêr ac yn anniben.

5.1.34 Y tu ôl i'r Cyfnod, Swyddfa'r Post a Gwesty Plas Coch mae grŵp diddorol o adeiladau a allai fod o'r 18fed ganrif, er yr addaswyd un ohonynt gan wyneb brics o'r 20fed ganrif. Mae gan yr adeilad agosaf at y Stryd Fawr ffenestri codi 3/3 sylweddol.

5.1.35 Mae Heol Tegid yn hollti'n Heol y Domen (i'r gogledd) ac yn Heol Plasey (de). Disgrifir rhan ddwyreiniol Heol Tegid yn Ardal Cymeriad 2. Mae gan ran orllewinol Heol Tegid grŵp Sioraidd arbennig o dda, gyda siop E. J. Theodore ar yr ochr ddeheuol, adeiladau da o boptu, a bwyty 'Al Fresco' gynt (bellach yn wag, i bob golwg) gyferbyn. Mae'r adeiladau agosach at y gyffordd â Heol y Domen wedi dioddef gradd anaddas o newid (rendr simentaidd, ffenestri uPVC).

5.1.36 Nodweddir yr ardal i'r de o Heol Tegid gan feysydd parcio mawr. Mae Capel Plasey gynt yn Ganolfan Treftadaeth bellach (i'r de o'r ffordd), ac mae rhai tai allan a ddichon fod yn gynnar y tu ôl i'r Hen Ben Tarw a Chelfi Penllyn, sydd ag angen eu trwsio. Mae'r amrediad y tu ôl i'r Tloty blaenorol wedi'u hatgyweirio'n sensitif a'u troi'n llety. Mae hyn wedi gwella'r ardal yn fawr a darparu golygfa trwodd at y prif amrediad adeiladau.

5.1.37 Mae Heol Arenig i'r gogledd-ddwyrain o'r Stryd Fawr ac yn gyfochrog â hi. Wyneba dai awdurdod lleol diweddarach tua'r pen deheuol. Mae adeiladwaith cynharaf y stryd yn dangos fel y bu'n stryd wasanaethol ar gyfer adeiladau mwy'r Stryd Fawr. Erys stablau ac adeiladau ategol pwysig eraill, yn enwedig y tu ôl i Blas yn Dre, Gwesty'r Llew Gwyn Brenhinol a'r Badell Aur. Mae sawl un yn wael ei gyflwr ac ag angen sylw neu ddefnydd cynaliadwy.

5.1.38 Wynebwyd rhannau o'r stryd gan dai rhes ddiwedd y 19eg ganrif, gan gynnwys Rhesdai Arenig, gan ddilyn llinellau adeiladau neu strydoedd



33Capel yr Annibynwyr o Heol Berwyn (2021).



34 Rhan orllewinol Heol Tegid, siop nwyddau haearn E. J. Theodore. (2021).

[18] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=25966 (no.50).

bychain cynharach arsgwâr i'r ffordd, gellid tybio. Er nad yw eu pensaernïaeth yn arbennig o ddiddorol maent yn rhan bwysig o'r ardal hon.

Ardal Cymeriad 2 – Heol Tegid a Chapel Tegid

5.1.39 Mae Ardal 2 yn ymgrynhoi ogylch Capel Tegid a'r sgwâr agored o'i flaen, oddi ar y ffordd sy'n mynd i'r de-ddwyrain o graidd canoloesol y dref. Mae gan yr ardal amryw adeiladau carreg o'r 18fed ganrif a'r 19eg, â ffenestri codi. Yn agosach at Heol y Domen mae'r tai wedi'u rendro a graddfa'r newid yn amlycach.

5.1.40 Cynlluniwyd Capel Tegid (1865-7) gan W. H. Spaull o Groesoswallt, a gynlluniodd Coleg y Bala hefyd. Disodlodd ddau gapel cynharach (1757 a 1809). Mae'r wyneb wedi'i newid llawer, â llechi crog ar ran uchaf y talcen a'r meindwr wedi'u hadnewyddu tua'r flwyddyn 2000. Y tŷ ar gornel ogledd-orllewinol y sgwâr fu cartref cynnar Thomas Charles.Mae'r capel, y coleg a'r tir agored i'r de-ddwyrain o'r capel (lle cynhaliwyd cyfarfodydd awyr agored) yn grŵp pwysig yn hanes Anghydffurfiaeth Cymru.

5.1.41 Yn wynebu'r sgwâr, ar ochr gyferbyn Heol Tegid, mae rhes dda 35-43 Heol Tegid, o gerrig rwbel â bargodion estynedig a ffenestri codi. Mae gan 39 (Llys Owain) ddrws gwych ac anarferol â phaneli bwaog. Byddai gan yr adeilad arall ddrysau tebyg yn wreiddiol, gellid tybio. Roedd to a thalcen 43 yn dirywio ar adeg yr arolwg.

5.1.42 Y tu draw (de), oddi ar y ffordd, mae pâr ychwanegol o dai trillawr rhestredig, cyfnod Sioraidd, sef Plas Teg a Phlas yn Acre. Newidiwyd Plas yn Acre, yn anffodus, â ffenestri uPVC.

5.1.43 **Ardal Cymeriad 3, Heol y Castell**

5.1.44 Mae Heol y Castell gul yn ymestyn i'r gogledd o Heol Arenig. Dyma'r ffordd wreiddiol o'r dref ganoloesol tua'r gogledd, ond fe'i disodlwyd yn ddiweddarach gan Heol Ffrydan, sy'n lletach.

5.1.45 Nodweddir y ffordd gan fythynnod wedi'u rendro ar fin y stryd. Disodlwyd ffenestri gwreiddiol y mwyafrif erbyn hyn, ond mae'r cymeriad gwreiddiol eto'n amlwg. Mae'r rhestai y tu hwnt yn ddiweddarach, lle mae'r ffordd yn ymledu i gefn gwlad.

Ardal Cymeriad 4, Eglwys Crist a Datblygiadau Ôl-rheilffordd.



35 Rhes croes i Heol Arenig. (2021). (2021).



36 Capel Tegid a cherflun y Parch. Thomas Charles (2021).

5.1.46 Saif Eglwys Crist yn amlwg ar gornel Heol Arenig a Heol Ffrydan. Fe'i hadeiladwyd mewn arddull pigfain, syml, moel gan y pensaer Benjamin Ferrey â meindwr uchel sy'n amlwg yng ngolygfeydd o'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, yn enwedig tros Bont y Bala, o Heol Ffrydan ac o Goleg y Bala. Mae'r olaf yn datgan yn weledol y berthynas rhwng yr eglwysi Anglicanaidd ac Anghydffurfiol.

5.1.47 Ar aliniad gwreiddiol Heol Ffrydan (yn groes i'r Stryd Fawr) mae rhes olygus o 9 tŷ Fictoraidd rhestredig (4-20 Heol Ffrydan). Mae'r pump agosaf at y Stryd Fawr o ddiddordeb neilltuol â gwaith brics amryliw: brics glas peirianegol yn bennaf, yn gwrthgyferbynnu â manylion coch a llwydfelyn, â ffenestri bae uchder llawn, fframiau pren, cydweddol. Mae'r pedwar tua'r gogledd-orllewin yn symlach, o frics llwydfelyn a haenau brics gleision a ffenestri bae is. Maent yn bwysig fel grŵp ac yng ngolygfeydd y pen hwn o'r dref. Mae aliniad diwygiedig Heol Ffrydan wedi creu cyfres o leiniau glaswellt a mannau parcio aflêr, braidd, o'u blaenau, a gellid gwella hyn yn sylweddol.

5.1.48 Y tu ôl i'r rhes tai, ar Heol Arenig, mae fila Fictoraidd da, Tŷ Seren, o gerrig rwbel ag ymylwaith terracotta. Mae iddo eto waliau da, a rheiliau gwreiddiol a physt giât o gerrig wedi'u capio â therracotta, hefyd. Mae hyn yn bwysig mewn perthynas ag Eglwys Crist a'r fynwent, ond yn adeilad cadwrus yn ei rinwedd ei hun, hefyd. Ymddangosai fel petai'n wag ar adeg yr arolwg.

5.1.49 Ar ochr ogleddol Heol Arenig mae rhes restredig Gradd II* o dai dechrau'r 20fed ganrif (1909) mewn arddull baróc Edwardaidd â dylanwadau Celf a Chrefft.[19] Mae'r rhes gyfesur o frics ag ymylwaith tywodfaen, â thalcenni bwaog amlwg ar y baeau canolog. Yn anffodus mae tan wedi difrodi rhan o'r rhes yn arw (2021), ac y mae'n hanfodol trwsio ac adfer hyn yn gywir.

5.1.50 Ar Heol yr Orsaf (estyniad y Stryd Fawr) mae rhes tai brics arall cysylltiedig â'r datblygu hapfasnachol yn sgil dyfodiad y rheilffordd. Mae'r rhan gynharaf, y pedwar tŷ agosaf at y cyn-orsaf, o frics coch â manylion terracotta, mewn cyflwr da: maent wedi'u rhestru. Mae tai a siop agosaf at y dref hefyd o frics coch, ond ag ymylwaith tywodfaen. Nis rhestrwyd, ac maent wedi dioddef mwy o newid (gan gynnwys gorchudd uPVC ar yr wyneb deheuol.) Mae gan y mwyafrif soseri lloeren amlwg y dylid eu tynnu ymaith. Dylid diogelu'r cyfan fel grŵp ar fan cyrraedd pwysig.

[19] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=25974 (Isfryn, 13 Heol Arenig).



37Adeilad yr orsaf a gortho diweddarach, ymylwaith brics yn amlwg (2021).



38 Heol y Castell, gan edrych tua'r gogledd (2021).

Ardal Cymeriad 5, i'r De o Ganol y Dref.

5.1.51 Heol Aran yw terfyn y dref ganoloesol, ac y mae ymdeimlad o'r raddfa adeiladu gynharach. Ar gornel Heol Aran a'r Stryd Fawr mae ystod o adeiladau unllawr o'r 18fed ganrif neu'n gynharach, efallai, sef y modurdy a'r Hen Efail bresennol. Mae'r olaf yn dechrau dirywio. Mae'r adeiladau hyn yn rhan bwysig o dreflun y Bala a dylid eu diogelu. Mae rhes tai cerrig llawn cymeriad, yn amrywio o ddau i dri llawr mewn uchder, i'r de o Heol Aran hefyd.

5.1.52 I'r gogledd o'r Stryd Fawr mae amrediad o dai allan cysylltiedig â thafarn flaenorol y Llew Coch, 'Stabal Llew Coch', sydd bellach yn fythynnod gwyliau. Maent yn adeiladau pwysig, â'r Llew Coch diweddarach (sy'n dŷ, bellach) ar y gyffordd. Yn nesaf atynt mae gorsafoedd cymharol newydd yr heddlu a'r ambiwlans.

5.1.53 Gyferbyn mae Neuadd Buddug, sinema a theatr gynt. Bu'r adeilad o'r 19eg ganrif ar gau er 2018, trist dweud. Fe'i gwnaed yn sinema yn nhua 1930, gyda mynedfa a chyntedd o'r cyfnod hwnnw. Mae'n rhan bwysig o'r dref a rhaid canfod defnydd newydd addas oni ellir ei hailagor fel y bu.

5.1.54 Yn nesaf ati mae rhes dai dda o'r 19eg ganrif, yr adeilad olaf cyn y ganolfan hamdden ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr, sydd wedi cadw waliau terfyn a rheiliau da.

Deunyddiau a Manylion

5.1.55 Er mai carreg yw prif ddeunydd y dref, rwbel yn yr adeiladau cynharaf, mae cymeriad y dref i'w ganfod yn yr amrywiaeth deunyddiau adeiladu sy'n adlewyrchu ei hesblygiad. Efallai mai rhai pren fu'r adeiladau cynnar, ond disodlwyd neu ailadeiladwyd hwy oll. Mae brics wedi dod yn bwysig, yn bennaf wedi dyfodiad y rheilffordd ym 1864, ac adeiladau sy'n defnyddio llawer o wahanol ddeunyddiau er mwyn effaith weledol.

5.1.56 Nodweddir adeiladau carreg Sioraidd gan gerrig rwbel, yn aml â bargodion amlwg iawn, er o gymeriad syml. Mae peth tystiolaeth am gloddio cerrig i'r



39 Rhes tai rhestredig Gradd II* ar Heol Arenig: difrod tân. (2021).



40 Rhes tai oddi arHeol Ffrydan, o ansawdd da ond â pharcio *ad hoc* a thirwedd o gynllun gwael yn effeithio er gwaeth ar y gosodiad. (2021).

gogledd o'r dref, gyda'r blociau mwy yn dod o'r chwareli mwy yn Arennig, debyg, lle cloddid rhyolit (er ei alw'n 'wenithfaen' yn aml). Mae'r creigiau hyn yn amlwg oherwydd eu crisialau cwarts a ffelsbar mawrion.[20]

5.1.57 Mae'r rhan fwyaf o'r toeau o lechi, y mwyafrif yn llechi teneuach, mwy cyfoes, wedi'u gosod ers i'r rheilffordd agor cysylltiadau â'r chwareli mwy. Erys rhai llechi cynharach, ac o ganlyniad maent yn bwysig, gan gynnwys toeau'r Cyfnod ac R. H. Roberts lle mae maint y llechi'n lleihau wrth i'r haenau agosáu at y grib.

5.1.58 Awgryma lluniau cynnar ac adeiladau cynharach sy'n weddill y buasai gwyngalchu eang, yn enwedig pan oedd y dref adeiledig yn llai o faint. Disodlwyd hyn gan baentiau a rendrau cyfoes, gan fwyaf.

5.1.59 Defnyddia banc yr HSBC frics gwasgedig Rhiwabon a thywodfaen Swydd Gaerllion. Mae rhes tai Heol Ffrydan yn cyfuno gwahanol frics, pren a rendr i greu patrymau amryliw trawiadol iawn.

5.1.60 Mae manylion pren addurniadol yn eithaf cyfyngedig. Mae bargodion dyfnion syml yn nodweddu adeiladau'r 18fed ganrif a dechrau'r 19eg yn neilltuol, ynghyd â ffenestri codi mawrion. Ffenestri codi sydd amlaf, y rhai cynharaf o sawl cwarel (cyfluniad 8/8 fel arfer), a'r enghreifftiau o ddiwedd oes Fictoria â chwareli mwy.

Ffiniau

5.1.61 Dynodir ffiniau gan amlaf â waliau cerrig neu frics (â cherrig copa terracotta neu garreg), yn aml â gwaith haearn arnynt. Collwyd peth gwaith haearn ond mae eto cryn waith haearn neilltuol ac o ansawdd da yn y dref.

5.1.62 Erys enghreifftiau da o waith haearn y 19eg ganrif. Mae gan Eglwys Bresbyteraidd 1811 reiliau, giatiau a cherrig copa da. Erys rheiliau mwy addurniadol, a waliau a giatiau, yn rhestai Heol yr Orsaf a gyferbyn â gorsaf yr heddlu. Maent oll o bwys i'r strydwedd.

5.1.63 Mae sawl enghraifft dda o waith haearn dechrau'r 20fed ganrif yn arddull Celf a Chrefft. Nodedig anghyffredin yw rhes 1909 Heol Arennig a'r rhai o flaen y Gelli. (gw. Ffig. 41).

[20] Talbot, J a Cosgrove, J. (2017) *Roadside Geology of Wales* t.109.



41 Cerrig rwbel yn y Gelli, Heol Tegid. Sylwch ar y porth slabiau a'r rheiliau Celf a Chrefft da. (2021).



42 Rhes tai oddi ar Heol Ffrydan, o ansawdd da ond â pharcio *ad hoc* a thirwedd o gynllun gwael yn effeithio er gwaeth ar y gosodiad.. (2021).

5.1.64 Diffinnid ffiniau cefn â waliau uwch, ond addaswyd neu collwyd y mwyafrif ohonynt.

Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

5.1.65 Bu'r Stryd Fawr erioed yn un eang ac wedi'i diffinio gan goed ers y 19^{eg} ganrif. Yn ddiweddarach fe'i diffiniwyd gan gerbydau, ond mae'r mannau parcio yn defnyddio setiau crynion, â cherrig bwrw o amgylch coed, ac yn gyffredinol yn cyfrannu er gwell. Bydd y parcio'n cyfrannu'n economaidd at y Stryd Fawr hefyd.

5.1.66 Fel y dywedwyd, mae cerflun Thomas Edward Ellis, y gofeb ryfel a manylion eraill yn cyfrannu at natur neilltuol y Stryd Fawr hefyd, â'i helaethrwydd.


5.1.67 Mae peth o'r pafin a'r arddull 'priffordd' sy'n gwarchod y mannau croesi yn andwyol i olwg y lle, fodd bynnag.



43 Manylion gwaith haearn, rhes dai Heol Arenig. (2021



44 Mae mannau parcio coblog, coed, pyst a cherrig bwrw yn cyfrannu er gwell at yr Ardal Gadwraeth. (2021).



Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig
1:2000 ar A4

45 Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth a'i Chyffiniau. ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Ceir yr asedau hanesyddol dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) yn yr Ardal Gadwraeth:

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *ME016 Mwnd Castell Tomen y Bala*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *25979 10 Heol Ffrydan (II)*
- *2598012 Heol Ffrydan (II)*
- *2598114 Heol Ffrydan (II)*
- *2598216 Heol Ffrydan (II)*
- *2598318 Heol Ffrydan (II)*
- *2598420 Heol Ffrydan (II)*
- *2596526Y Stryd Fawr (II)*
- *2601534 Heol Tegid (II)*
- *2601636 Heol Tegid (II)*
- *2601137 Heol Tegid (II)*
- *2601738 Heol Tegid (II)*
- *2601239 Heol Tegid (II)*
- *2601840 Heol Tegid (II)*
- *2601341 Heol Tegid (II)*
- *2601443 Heol Tegid (II)*
- *491548 Heol y Domen (II)*
- *2596650 Heol y Domen (II)*
- *2596752 Heol y Domen (II)*
- *259776 Heol Ffrydan (II)*
- *2602072,Y Stryd Fawr (II)*
- *259788 Heol Ffrydan (II)*
- *25987Arlunfa (II)*
- *25975Awelfryn (II*)*
- *4913Aykroyd & Sons, Ffatri Ddillad (Y Tloty, gynt) (II*)*
- *4911Banc Barclays (II)*
- *26021Bodiwan (II)*
- *25988Bronallt (II)*
- *26001Caffi'r Cyfnod (II)*
- *18375Capel Tegid (II)*
- *26006Siop pryd ar glud China Treasure (II)*
- *25964Eglwys Crist (II)*



46 Eglwys Crist, 2021.



47 Glasfryn, Trem-y-fron, Arlunfa, a Bronallt ar Heol yr Orsaf. (2021).

- *26003 Capel yr Annibynwyr (II)*
- *26002 Caffi Cwpwrdd Cornel (II)*
- *25969 Derlwyn (II*)*
- *25972 Dolydd (II*)*
- *26007 E.J. Theodore (II)*
- *25973 Fedw Arian (II*)*
- *25976 Glanrhyd (II)*
- *25986 Glasfryn (II)*
- *26009 H. Rowlands (II)*
- *25994 Heulfryn (II)*
- *25974 Isfryn (II*)*
- *25970 Islwyn (II*)*
- *26000 Siop Bapur Newydd Ken Davies (II)*
- *26004 Neuadd y Cyfnod (II)*
- *26010 Plas Deon (II)*
- *26022 Plas Teg (II)*
- *26023 Plas yn Acre (II)*
- *25993 Plas yn Dre (II)*
- *4910 Y Capel Presbyteraidd (II)*
- *25992 R.H. Roberts (II)*
- *25971 Ronville (II*)*
- *25968 Rosedale (II*)*
- *26005 Siop Bapur Newydd (II)*
- *25996 Siop DE (II)*
- *25999 Spar (II)*
- *18376 Cerflun y Parch. Thomas Charles (II)*
- *25995 Cerflun T.E. Ellis (II)*
- *25998 Tenovus (II)*
- *4909 Swyddfa'r Cyngor Tref (II)*
- *4916 Neuadd y Dref (II)*
- *25985 Trem-y-fron (II)*
- *25991 Tŷ GM (II)*
- *4914 Gwesty'r Llew Gwyn Brenhinol, gan gynnwys yr hen Stablau a'r Wal Gysylltiedig Gyfagos yn y Cefn (II)*
- *26019 Y Gelli (II)*
- *26008 Y Siop Fach (II)*
- *4912 Tafarn yr Hen Ben Tarw, gan gynnwys Tai Allan yn y Cefn (II)*
- *25997 Yr Eryr (II)*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol.

Bernir y dylid ystyried cynnwys y canlynol ar y rhestr genedlaethol:

- *Tafarn y Llong.*
- *Canolfan Bro Tegid, yr Ysgol Brydeinig flaenorol.*



48 Heulfryn a Siop DE, 2021.



49 Yr Hen Ben Tarw. (2021).

- *Yr Hen Efail a'r Modurdy (cornel Heol Aran a'r Stryd Fawr).*


6.1.4 Mae cyfres o asedau hanesyddol dynodedig sylweddol (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) o fewn tua 500m i'r Ardal Gadwraeth:

- *4908/4653 Pont y Bala (II)*
- *24597 Giât a Waliau Sgrinio Rhiwlas (II)*
- *25989 Coleg y Bala (II)*
- *25990 Cerflun Lewis Edwards yng Ngholeg y Bala (II)*
- *26021 Bodiwan (II)*
- *ME092 Caer a Gwersylloedd Rhufeinig Llanfor*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig sydd o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Clustnodwyd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol yn yr Ardal Gadwraeth yn rhai o ddiddordeb lleol arbennig (gw. Ffig. 50):

- *Tafarn y Llong.*
- *Canolfan Bro Tegid, yr Ysgol Brydeinig flaenorol.*
- *46 Heol y Domen.*
- *Yr Hen Efail a'r Modurdy (cornel Heol Aran a'r Stryd Fawr).*
- *Neuadd Buddug (Victoria Hall gynt)*
- *Tŷ Seren*
- *4-16 Y Stryd Fawr (gan gynnwys y tai allan yn y cefn ar Heol y Domen).*
- *Adeiladau y tu cefn i'r Cyfnod, Swyddfa'r Post a Gwesty Plas Coch.*
- *Banc yr HSBC*
- *Rhes tai i'r gorllewin o Heol y Castell.*
- *4-8 Heol Tegid. (4-6 yw'r 'Al Fresco' ar hyn o bryd)*
- *26-32 Heol Tegid* (gan gynnwys Bala Backpackers).
- *48-50 Heol Tegid*
- *55 Heol Tegid*
- *Capel Clai, gynt*
- *Stabal Llew Coch*
- *99 Y Stryd Fawr gan gynnwys tŷ allan sy'n wynebu Heol Arennig.*
- *Rhesi tai'n groes i Heol Arennig.*
- *Rhesdai Cambrian gyferbyn â stablau'r Llew Gwyn.*
- *Tŷ allan y tu cefn i Tenovus (ar Heol Arennig).*
- *Arran House (Y Stryd Fawr)*
- *25-27 Y Stryd Fawr*
- *7-17 Heol y Domen.*
- *Stabal Heulfryn (Stryd yr Eglwys).*
- *Ysgol Godre'r Berwyn (darn o'r 19eg ganrif sy'n wynebu Heol Ffrydan).*



Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig
1:2000 ar A4

 Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Dynodiadau Eraill
1:2000 ar A4

51 Dynodiadau eraill ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

6.2.1 *Mae Ysgol Beuno Sant, sydd ychydig y tu hwnt i ffin yr Ardal Gadwraeth, yn enghraifft dda o Ysgol Genedlaethol. Mae ar wahân i'r Ardal Gadwraethfodd bynnag, felly argymhellir ei chynnwys ar y rhestr leol (gweler 6.3 isod).*

6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

6.3.1 Dylid hefyd ystyried '*Cofrestr Adeiladau Traddodiadol*' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.'

7.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

7.1.1 Nid yw'n hysbys beth yw dichonoldeb archeolegol safleoedd tu mewn i'r ardal gadwraeth yn benodol. Mae tystiolaeth gyfyngedig am weithgaredd gynhanesyddol yn yr ardal leol. Mae'r diddordeb o'r cyfnod Rhufeinig ymlaen, yn bennaf.

7.1.2 Rhaid bod y ffordd o Gaerllion Fawr wedi mynd trwy ardal y Bala gyfoes, yn agos at gyfadeiladau Llanfor ac ymlaen i Gaer Gai, felly dichon fod gweddillion claddedig.

7.1.3 Er bod tystiolaeth ddogfennol, dichon fod modd deall tref y cyfnod canoloesol ac yn union wedi hynny yn well, efallai trwy weddillion claddedig neu o fewn adeiladau sy'n dal i sefyll.

8.0 Asedau Dynodedig Eraill

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

8.1.1 Mae'r Ardal Gadwraeth i'r gogledd o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llyn Tegid.


Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA)

8.1.2 Mae'r Ardal Gadwraeth yn nesaf at AGA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, sy'n cynnwys rhan o afon Tryweryn yn y Bala.[21]

[21] https://naturalresources.wales/media/673374/River_Dee___Bala_Lake_32_Plan.pdf

Gorchmynion Cadw Coed

8.1.3 Ar hyn o bryd ni chofnodwyd unrhyw Orchmynion Cadw Coed yn yr Ardal Gadwraeth (yn ychwanegol at yr amddiffyniad y mae'r ardal yn ei roi). Mae rhai yn union ar yr ymylon, fodd bynnag. Gw. Ffig. 52.



Coed
1:2000 ar A4

52 Gorchmynion Cadw Coed a choed pwysig eraill ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig

8.1.4 Mae'r dref yn nhirwedd hanesyddol gofrestredig HLW (Gw) 16 –Y Bala a Glannau Tegid.[22]

9.0 Bioamrywiaeth

Coed

9.1.1 Am Orchmynion Cadw Coed, gweler 8.3.

9.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed/coedlannau allweddol yn yr Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

Rhywogaethau Gwarchodedig.

9.1.3 Gwyddys fod sawl rhywogaeth warchodedig allweddol yn y Bala a'r cyffiniau. Mae'r rhain yn cynnwys:

9.1.4 *Lamprai'r afon (Lampetra fluviatilis)*
9.1.5 *Lamprai'r nant (Lampetra planeri)*
9.1.6 *Y bawd melinydd (Cottus gobio)*
9.1.7 *Y dyfrgi Ewropeaidd (Lutra lutra)*

9.1.8 Gwyddys fod gwenoliaid a gwenoliaid duon yn nythu ym margodion llydan sawl adeilad, a chofnodir amryw fath o ystlum.

[22] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=&id=HLW%20(Gw)%2016



YR AIL RAN: CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH


1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB

CRYFDERAU

- Nifer dda o ymwelwyr a phoblogrwydd
- Hunaniaeth gref a bywiogrwydd.
- Amrywiaeth dda o siopau a gwasanaethau lleol. Yn gyffredinol mae'r Stryd Fawr mewn cyflwr da ac yn atyniadol, gydag wyneb a manylion da.
- Rhan mewn Anghydffurfiaeth, treftadaeth a cherfluniau cysylltiedig.
- Adeiladau allweddol yn gyffredinol gadarn ac mewn cyflwr da.
- Agosrwydd at Lyn Tegid a'r dirwedd ogylch.
- Rhwydwaith o lwybrau cerdded a deunydd dehongli yn caniatáu ymgysylltu â threftadaeth.

GWENDIDAU

- Maint y traffig i'r dref a thrwyddi, ac o ganlyniad parcio yn y dref.
- Ardal yr ystâd ddiwydiannol ar safle'r hen orsaf a'r olygfa wrth gyrraedd o'r gogledd-orllewin.
- Cyflwr cefnau rhai adeiladau ategol ond pwysig ar Heol Arennig, Heol y Domen a Heol Plasey.
- Gellid gwella cysylltiadau â Llyn Tegid.
- Y newid sylweddol i ffenestri, gwaith coed, nwyddau dŵr glaw (wedi'u disodli gan rai uPVC), yn bennaf.)



CYFLEOEDD

- Cofrestru rhagor o adeiladau allweddol a diogelu'r dref ac adeiladau allweddol yn well, neu gyflwyno cyfarwyddiadau Erthygl 4.
- Gwneud rhagor o'r strydoedd cyfochrog trwy ddiogelu adeiladau hanesyddol a datblygu newydd o ansawdd da.
- Defnyddio technolegau cynaliadwy mewn modd sensitif lle bo'n addas.
- Canfod defnydd cynaliadwy ar gyfer Neuadd Buddug (a Neuadd y Cyfnod, efallai.)
- Gwell rheolaeth ar ddatblygiadau yn yr ardal gadwraeth a'i chyffiniau.
- Mae'r orsaf newydd a'r cysylltiad â Rheilffordd Llyn Tegid yn cynnig cyfleoedd.

BYGYTHION

- Cynnydd newid anaddas (ffenestri plastig, deunyddiau toi, ychwanegiadau anaddas, er enghraifft.)
- Dyfodol Neuadd Buddug a Neuadd y Cyfnod (yn wag ers tro)
- Difrod tân yn Heol Arennig.
- Cyflwr rhai o'r gwestai: y Llew Gwyn ar werth ar hyn o bryd.
- Maint y traffig a phwysau twristiaeth.
- Datblygiad cynnyddol yn yr ardal gadwraeth a'i chyffiniau nad yw o ansawdd addas.
- Diffyg rheoli newid manylion adeiladau presennol a datblygiadau newydd.

2.0 Deall y Materion

Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Ceidw'r Bala lawer o'i chymeriad arbennig, sy'n adlewyrchu ei hesblygiad o anheddiad canoloesol cynlluniedig i ganolfan trafod crefyddol ac, ers dyfodiad y rheilffordd, cyrchfan ymwelwyr.

2.1.2 Mae mwyafrif yr adeiladau wedi'u hanheddu neu mewn defnydd buddiol. Mae trawsnewidiad meddiant manwerthol ac mae rhai adeiladau'n wag ar hyn o bryd, ond nid hanner cymaint â rhai trefi o faint cyffelyb.

2.1.3 Mae rhai problemau sy'n effeithio'n andwyol ar ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys:

- Disodli gwaith coed, ffenestri a drysau hanesyddol gan rai cyfoes, uPVC fel arfer, gan gynnwys newid wynebau siopau.
- Datblygiadau neu estyniadau anaddas neu o ansawdd gwael.
- Colli dulliau dynodi ffiniau traddodiadol.
- Colli adeiladau a fuasent yn stablau, yn storfeydd ac yn adeiladau domestig yn y strydoedd cyfochrog â'r Stryd Fawr.

2.1.4 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Disodli ffenestri a drysau rhai adeiladau allweddol yn yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig adeiladau nas rhestrwyd ar y Stryd Fawr a'r strydoedd cyfochrog.
- Tai allan wedi'u disodli gan ddatblygu cyfoes gwael (yn enwedig yn Heol Arennig).

2.1.5 Hyd yn hyn, ni fu datblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth a'i chyffiniau o ansawdd digonol, gan adlewyrchu'r cymysgedd pensaernïol unigryw. Dylid disgwyl gwell deunyddiau a chynllunio.



53 Ffenestri a gorchudd uPVC newydd, Y Stryd Fawr.



54 Gwaith ffiniau darniog a datblygu cyfoes gwael yn Heol Arennig. Sylwer ar dŷ allan cynnar Plas yn Dre (â gorchudd haearn rhychog rhannol).

Adeiladau mewn Perygl

2.1.6 Bu Neuadd y Cyfnod yn wag ers cau'r bwyty yno. Mae hwn yn adeilad rhestredig allweddol, ar drothwy'r Ardal Gadwraeth, gam o'r lôn ac yn cadw manylion gwreiddiol o bwys, â waliau ffin pwysig. Yr oedd peth gwaith yn cael ei wneud yno ar adeg yr arolwg.

2.1.7 Bu Neuadd Buddug yn cael ei defnyddio fel theatr a sinema hyd 2018. Bu hyn yn golled fawr i'r dref yn nhermau treftadaeth ddiwylliannol, ond y mae hefyd yn fygythiad i'r adeilad, (sy'n adlewyrchu ei ddechreuad Fictoraidd a'i addasu tua'r flwyddyn 1930 ar gyfer ei ddefnyddio'n sinema). Nid yw wedi'i restru nac yn destun cyfarwyddiadau Erthygl 4, felly mae'n agored iawn i'w newid, ynghyd â'r maes parcio/safle gerllaw.

2.1.8 Mae pryder ynghylch cyflwr a cholli adeiladau gwasanaeth syml a fuasent yn stablau, yn storfeydd ac yn adeiladau domestig yn y strydoedd cyfochrog â'r Stryd Fawr. Dylid trwsio a diogelu'r adeiladau hyn a chanfod defnyddiau cynaliadwy newydd iddynt.

3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

3.1.1 Cynhaliwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth y Bala. Defnyddir hwn i glustnodi rhai o'r problemau, ond hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr Ardal Gadwraeth. Bydd wedyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer creu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

3.1.2 Dengys y dadansoddiad CGCB sawl pen gweithredu allweddol i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynorthwyo ailosod manylion adeiladu traddodiadol a gwella cynaliadwy ar gyfer gwell perfformiad amgylcheddol.
- Canfod defnydd newydd, addas ar gyfer Neuadd y Cyfnod a Neuadd Buddug, gan sicrhau diogelu a gwella eu harwyddocâd ac, yn ddelfrydol, eu cadw mewn defnydd hygyrch gan y cyhoedd.
- Ceisio gwella wynebau cefn a thai allan rhai o'r gwestai a'r eiddo manwerthol mwy ar y Stryd Fawr.



55Neuadd y Cyfnod. (2021).



56Neuadd Buddug (2021).

- Sicrhau diogelu manylion gwreiddiol arwyddocaol yr Ardal Gadwraeth trwy weithredu gwell rheolau adeiladu (cyfarwyddiadau Erthygl 4, fe ddichon.)
- Gellid gwneud rhagor o dŷ Thomas Charles, y coleg cynnar a chysylltiadau â Mary Jones (a Byd Mary Jones yn Llanycil).
- Ystyried cyfuno technolegau cynaliadwy ac ôl-osod lle ni fydd yn effeithio'n andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth na'r adeilad penodol.

3.1.3 Mae'r CGCB yn clustnodi sawl gwendid a bygythiad, a glustnodir yn bwyntiau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwneud gwaith ymgysylltu adeiladol er mwyn dadwneud newidiadau difrodol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Ystyried gwelliannau neu newidiadau er gwella safle'r hen orsaf a'r dynesiad at y dref o'r gogledd-orllewin.
- Sicrhau trwsio ac adfer y difrod tân i'r rhes tai rhestredig ar Heol Arennig mewn modd addas.
- Cefnogi a gweithio â pherchnogion gwestai allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn hyfyw ac yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.

4.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

Newid Ffiniau.

4.1.1 Nid arfaethir addasu ffin yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd.

Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

4.1.2 Ceir cyd-destun fframwaith deddfwriaethol Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol ***Cyflwyno a Pholisi Cynllunio.*** Rydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.

4.1.3 Argymhellir cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Ardal Gadwraeth y Bala. Mae'r dref eto mewn cyflwr da, ar y cyfan, ac y mae cyfle i atal rhagor o newid anaddas fel tynnu ymaith ffenestri, gwaith coed a nwyddau dŵr glaw hanesyddol.

4.1.4 Fel y nodwyd yn 6.1 yr AAG, argymhellir ystyried cynnwys tafarn Y Llong, Canolfan Bro Tegid, yr Ysgol Brydeinig flaenorol a 46 Heol y Domen ar y rhestr genedlaethol.

Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

4.1.5 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion, a gwendidau a bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth (gweler 2.0). Gellid gwneud hynny trwy estyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

4.1.6 Mae pynciau a chyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Gweithredu o bosib camau rheoli datblygu (cyfarwyddyd Erthygl 4) i reoli colli manylion a nodweddion gwaith coed hanesyddol.
- Ceisio canfod defnydd tymor hir ar gyfer Neuadd Buddug (oni ellir ei hatgyfodi'n sinema ac yn theatr, a fyddai orau) a'r safle cyfagos. Ceisio ymgysylltu â Chyngor Gwynedd, y Cyngor Tref a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Gwella wynebau adeiladau allweddol at y Stryd Fawr. Ystyried prosiect treftadaeth drefol neu'r tebyg i annog triniaeth addas o wynebau eiddo manwerthu a domestig.
- Gwella cefnau gwestai, ac yn enwedig yr adeiladau ategol sy'n weddill (stablau a chartws) gyda gwella'r strydoedd cyfochrog i ddilyn.
- Ceisio rheoli datblygiad mewnlenwi a datblygiad o ansawdd anaddas ar ymylon yr Ardal Gadwraeth.
- Annog ailosod manylion gwaith coed mwy addas ar adeiladau o bwys lleol, yn lle gwaith uPVC cyfoes.

4.1.7 Gan ddefnyddio'r dulliau uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gw. isod), codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid addas. Hyn i gynnwys:

- Ymwybyddiaeth â pherchnogion a chymuned y Bala.
- Codi ymwybyddiaeth, ac â chefnogaeth yn y dyfodol, medrau ar gyfer contractwyr a chrefftwyr lleol.

Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

4.1.8 Ceir arweiniad ynghylch yr arddull cywir ar gyfer cyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau angenrheidiol yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, yn y ddogfen: ***Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol.***

4.1.9 Mae gan y Bala gyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fechan. Gwnaed hynny'n ddiweddar mewn cynllun yn Llanuwchllyn a chynllun adfer tyrbin hanesyddol ym Mhalé. Arfaethwyd cynlluniau eraill ond y maent eto i'w gweithredu.

4.1.10 Dylid cynorthwyo ac annog cynlluniau ynni cynaliadwy lle nid ydynt yn effeithio'n andwyol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr Ardal Gadwraeth.

Bioamrywiaeth

4.1.11 Mae coed yn hanfodol bwysig i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetaidd. Diogelir amrywiaeth o goed gan orchmynion cadw (gw. 8.3). Clustnodwyd coed eraill yn rhai o bwys yn yr Ardal Gadwraeth (gw. 4.3).

4.1.12 Bernir y gellid ystyried coed y fynwent (yw yn bennaf) a'r rhai ogylch tir glas y dref ar gyfer gorchmynion cadw.

4.1.13 Mae cryn ddichonoldeb gwella bioamrywiaeth yr Ardal Gadwraeth. Gallai gweithredu gynnwys, er enghraifft:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Gall defnyddio toeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, lle bo'n addas ar gyfer y dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladu.
- Peidio ag ymyrryd â choed, i ganiatáu iddynt aeddfedu.
- Cadw coed marw safadwy a chreu cludeiriau o bren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

4.1.14 Sicrhau fod unrhyw ddatblygiad yn cadw cymeriad neillteuol yr Ardaloedd Cymeriad o fewn yr Ardal Gadwraeth, a'i fod yn cydweddu â hwy, ac yn ystyried tystiolaeth ynghylch nodweddu hanesyddol a sensitifrwydd tirweddol y cyffiniau.

4.1.15 Sicrhau y bydd cynigion datblygu'n gwella buddiannau bioamrywiaethol a geoamrywiaethol

4.1.16 Gweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithredu prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.

4.1.17 Annog datblygu i gynnwys camau cyfrannu'n adeiladol at fioamrywiaeth gyfan yr ardal.

4.1.18 Gwella seilwaith gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

5.0 Ymgynghoriad

5.1.1 Bu drafft Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth yn destun yr ymgynghoriad canlynol:

- Cyngor Tref y Bala (03/03/2022)
- Trwy wefan y Parc Cenedlaethol.

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth o ddeunydd wedi'i gyhoeddi a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Gwerthusiad hwn:

Aston, M a Bond, J (1976) The Landscape of Towns. (Sutton Publishing Limited)

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association ym 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester).

Gwyn, D *Welsh Slate: The Archaeology and History of an Industry (CBHC 2015).*

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11)* (argraffiad 1952).

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H a North H. L. *The Old Churches of Snowdonia*(Jarvis and Foster, Bangor 1924).

Jenkins, D.E. (1908) *The Life of the Rev. Thomas Charles of Bala*, (Llewelyn Jenkins, Denbigh)

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Pennant, T. (1781), *The Journey to Snowdon* (London)

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (Henry G. Bohn, London)

Smith, B. a Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

Talbot, J. a Cosgrove, J. (2017) *Roadside Geology of Wales*(Geologists' Association).

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) *Bala Draft Conservation Area Appraisal*, (di-ddiddiad a digyfeiriadaeth – seiliwyd ar astudiaeth Cymeriadu Trefol.)

Historic Landscape Characterisation Studies - http://www.heneb.co.uk/hlc/bala.html